Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

Cyfarfod Busnes y Comisiynwyr

25 Ebrill 2018, 16:45 – 18:00
Yr Ystafell Gynadledda, Aberystwyth

Agenda

Adran 1: Materion rhagarweiniol

1.1 Ymddiheuriadau

1.2 Datgan buddiannau

1.3 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2017

1.4 Materion yn codi

1.5 Busnes y Cadeirydd

Adran 2: Cyllid

2.1 **Adroddiad Cyllid:** Adroddiad ar y datganiad incwm a gwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2017-18 a'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19.

Adran 3: Materion 'byw' a materion sy'n gofyn am benderfyniadau

3.1 **Llythyr Cylch Gwaith, Cynllun Gweithredol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2018-19:** Mae'r Llythyr Cylch Gwaith wedi'i dderbyn eisoes, a gofynnir i'r Comisiynwyr gymeradwyo'r Cynllun Gweithredol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol Drafft.

3.2 **Ffyniant i Bawb:** Trafodaeth ar sut orau y gallai'r Comisiwn fynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaethol a'r themâu allweddol yn nogfen Llywodraeth Cymru *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol* yn ei weithgareddau yn y dyfodol.

3.3 **Cyflwyno gwybodaeth ddigidol:** Adroddiad ar gynnydd y gwaith i ddatblygu platfform ar gyfer cyflwyno asedau digidol y Comisiwn Brenhinol.

3.4 **Cydraddoldeb ac amrywiaeth:** Adroddiad ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2017-18, a gofynnir i'r Comisiynwyr gymeradwyo Polisi a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2018-19.

3.5 **Yr Iaith Gymraeg:** Adroddiad ar weithredu Safonau'r Gymraeg ac ar waith y Grŵp Monitro Iaith Gymraeg.

3.6 **Recriwtio Comisiynwyr:** Adroddiad cynnydd ar recriwtio dau Gomisiynydd newydd a Chadeirydd newydd.

3.7 **Materion yn codi o'r Pwyllgorau:** Unrhyw eitemau yr hoffai Cadeiryddion y Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth neu Wasanaethau Cyhoeddus eu codi yn y Cyfarfod Busnes.

3.8 **Aelodaeth o Bwyllgorau:** Gan i dri Chomisiynydd newydd ddechrau yn eu swyddi ym mis Hydref 2017, cadarnhau aelodaeth newydd y Pwyllgorau.

Adran 4: Materion cloi

4.1 Unrhyw faterion eraill

4.2 Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol

4.3 Nodiadau briffio'r staff